**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI,**
**CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**TÎM COMISIYNU**

**Adroddiad Monitro Contract**

| | |
|---|---|
| **Enw/cyfeiriad y darparwr:** | **Achieve Together, Swyddfa 5, Adeilad Porth Tredomen, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7EH** |
| **Dyddiad/amser yr ymweliad:** | **25 Ionawr 2023** |
| **Swyddog(ion) ymweld:** | **Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contract** |
| **Yn bresennol:** | **Megan Hession, Rheolwr Rhanbarthol**<br>**Rachael Hawkins, Rheolwr Gweithrediadau** |

**1 Cefndir**

1.1 Yn ystod y broses fonitro, ymwelwyd â thri eiddo a'u monitro yn ystod y tri mis diwethaf, dau ohonynt cyn yr ymweliad â'r swyddfa, ac un ar y diwrnod canlynol.

1.2 Diben yr ymweliad â'r brif swyddfa oedd archwilio dogfennau a'r prosesau sydd ar waith yn yr eiddo.

1.3 Ymwelwyd â'r eiddo byw â chymorth i edrych ar ddogfennau, edrych ar yr amgylchedd, siarad â'r tenantiaid a siarad ag aelodau staff hefyd.

1.4 Cwblhawyd adroddiadau monitro contract yn unigol ar gyfer y swyddfa a'r tri eiddo yr ymwelwyd â hwy.

1.5 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, rhoddir i Achieve Together gamau unioni a chamau datblygu i'w cymryd. Camau unioni yw'r rheiny y mae'n rhaid eu cymryd (fel y'u llywodraethir gan ddeddfwriaeth ac ati) ac argymhellion o ran arfer da i'w cwblhau yw camau datblygu.

**2 Canfyddiadau**

2.1 Gwybodaeth am denantiaid a Dethol tenantiaeth

2.1.1 Cymerwyd busnes Montana Supported Living drosodd gan Achieve Together yn ystod y pandemig. Nid y landlord yw'r darparwr. Mae gan yr eiddo landlordiaid gwahanol ac Achieve Together sy'n darparu'r gefnogaeth a'r cymorth i'r unigolion.

2.1.2 Mae'r broses dewis tenantiaid yn cychwyn gyda Swyddog Atgyfeirio Achieve Together, Gweithiwr Cymdeithasol neu unigolyn yn hunangyfeirio, fel arfer trwy'r Rheolwr Rhanbarthol neu drwy'r Tîm Atgyfeirio. Bydd Achieve Together yn edrych ar anghenion a chydweddoldeb yr unigolyn ac wedyn dilynir proses bontio er mwyn sicrhau addasrwydd. Gall hyn gynnwys gwahodd yr unigolyn am bryd o fwyd ac arhosiad dros nos. Yn ystod y broses hon, bydd y staff yn monitro dynameg yr

unigolion i weld a fydd y darpar denant newydd yn cydweddu â'r rhai sydd eisoes yn byw yn yr eiddo.

2.1.3 Caiff y tenantiaid y cyfle i fynegi barn ynghylch y darpar denant newydd.

2.1.4 Os yw'r unigolyn yn cydweddu â'r eiddo, rhoddir proses bontio briodol ar waith. Ceir cyfnod prawf o 6 mis fel arfer pan fydd y tenant yn dechrau ei denantiaeth.

2 <u>Dogfennaeth</u>

2.2.1 Roedd yr holl ddogfennaeth a welwyd wedi'u storio mewn cabinet dan glo.

2.2.2 O'r ddwy ffeil a welwyd, roedd y ddwy yn cynnwys Cynllun Gofal Awdurdod Lleol a Chynlluniau Personol.

2.2.3 Gwelwyd bod y ddwy ffeil yn cynnwys asesiadau cyn derbyn.

2.2.4 Roedd y Cynlluniau Personol yn adlewyrchu'r wybodaeth a nodwyd yng Nghynllun Gofal yr Awdurdod Lleol. Roedd y Cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth ynghylch cyfathrebu, gofal personol, cynnal perthnasoedd, hamdden, gweithgareddau, sgiliau. Roedd y ddau Gynllun Personol yn nodi hoff a chas bethau'r unigolion. Fodd bynnag, awgryma'r swyddog monitro y dylid ysgrifennu'r cynlluniau yn y person cyntaf, fel tystiolaeth o ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

2.2.5 Er na chafwyd tystiolaeth bod yr unigolion wedi llofnodi eu mannau personol i ddangos eu bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o'u datblygu, gwelwyd tystiolaeth yn ystod yr ymweliadau â'r eiddo unigol. Gan fod data'r swyddfa i fod i adlewyrchu data'r eiddo, argymhellir y dylid cadw tystiolaeth o'r cyfranogiad hwn yn y brif swyddfa hefyd.

2.2.6 Ni welwyd cofnodion dyddiol yn ystod yr ymweliad â'r swyddfa am eu bod yn cael eu cadw yn yr eiddo unigol.

2.2.7 Gwelwyd asesiadau risg yn y ddwy ffeil, sy'n nodi'r hyn y mae angen i'r staff ei wneud i ddiwallu anghenion yr unigolion maent yn eu cynorthwyo. Gwelodd y swyddog monitro asesiadau risg mewn perthynas â materion ariannol, diogelwch ar drafnidiaeth, gweithgareddau, mynd ar goll, perygl gan bobl eraill, tân, cyflyrau meddygol, iechyd meddwl ac ati. Defnyddir dull Rhwydwaith Ymchwil Risg Cymhwysol Cymru (WARRN) os bydd ei angen ar unigolyn er mwyn diogelu'r tenant unigol ac eraill.

2.2.8 Roedd yr asesiadau'n cynnwys cyngor a gwybodaeth am y camau i'w cymryd petai risg yn codi a pha dechnegau y dylid eu defnyddio i dynnu sylw'r unigolyn.

2.2.9 Cynhelir adolygiadau misol gan y gweithwyr allweddol sy'n bwydo i mewn i adolygiadau chwarterol.

2.2.10 Roedd un o'r ffeiliau'n cynnwys proffil person coll ond doedd y llall ddim. Fodd bynnag, rhoddodd rheolwr yr eiddo dystiolaeth bod un ar gael ond nad oedd yn y ffeil yn y brif swyddfa. Mae hyn wedi'i ddatrys bellach.

2.2.11 Roedd yr holl wybodaeth wedi'i lleoli'n dda, yn gyflawn ac wedi'i chynnal yn dda.

2.3 <u>Cwestiynau i'r Rheolwr Rhanbarthol</u>

2.3.1 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r Rheolwr Rhanbarthol yn ystod yr ymweliad monitro.

2.3.2 Dywedodd y Rheolwr bod Achieve Together yn defnyddio system newydd o'r enw RADAR i gofnodi gwybodaeth amrywiol. Cofnodir archwiliadau meddyginiaeth ar y system, a chaiff unrhyw faneri coch (pryderon) eu hamlygu at sylw'r Rheolwr Rhanbarthol, er mwyn iddo gymryd camau priodol petai eu hangen.

2.3.3 Ni chaiff meddyginiaeth gudd ei rhoi i unrhyw denant.

2.3.4 Dim ond un aelod o staff sy'n llofnodi'r siart MAR wrth roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae angen dau lofnod staff wrth roi meddyginiaeth a reolir, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn llawysgrifen ar y siart MAR. Mae angen dau lofnod staff hefyd pan fydd cylch newydd o feddyginiaeth yn dechrau, neu pan fydd cylch yn dod i ben.

2.3.5 Mae staff yn cael eu hyfforddi i roi meddyginiaeth, a chaiff unrhyw gamgymeriadau a welwyd eu cofnodi a'u hadrodd i Reolwr y Tŷ er mwyn iddo weithredu'n briodol.

2.3.6 Roedd y Rheolwr Rhanbarthol yn gallu disgrifio pa wasanaethau eiriolaeth a ddefnyddir a phryd, petai ei angen ar unigolyn.

2.3.7 Mae Achieve Together yn dal i reoli'r gwaith trwsio/cynnal a chadw. Caiff y gwaith hwn ei drafod gyda'r landlord a'i gofnodi drwy e-bost ar borth cynnal a chadw.

2.3.8 Roedd y Rheolwr Rhanbarthol yn gallu dangos ei gwybodaeth hi ynghylch diogelu unigolion a'r gwersi a ddysgwyd o ran cyflwyno atgyfeiriadau diogelu yn amserol.

2.3.9 Nid oedd siaradwr Cymraeg yn yr eiddo ar adeg yr ymweliad. Fodd bynnag, mae gan Achieve Together bolisi iaith Gymraeg o'r enw 'Cwtch'. Mae bwrdd Cymraeg ar y safle gyda geiriau Cymraeg sylfaenol. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae eraill yn dysgu a/neu'n barod i fynd ar gwrs. Defnyddir hoff eiriau a geiriau'r wythnos hefyd.

2.3.10 Mae tenant byddar yn byw yn un o'r eiddo. Wrth ymweld â'r eiddo, roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff wedi dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) sylfaenol a bod dau aelod o'r staff yn gallu cynnal sgwrs yn rhugl mewn Makaton. Mae gwybodaeth sylfaenol hefyd ar gael ar ffeiliau'r unigolyn yn yr eiddo, er mwyn cynorthwyo'r staff presennol ac unrhyw weithwyr newydd.

2.3.11 Wrth gyfweld â darpar staff, caiff y tenantiaid gymryd rhan yn y broses gyfweld os dymunant.

2.3.12 Mae system 'ar alwad' ar waith i helpu'r staff, sy'n cynnwys nifer o haenau o weithwyr uwch/rheolwyr. Mae Rheolwyr Gwasanaeth, Rheolwyr Rhanbarthol, Pennaeth Gweithrediadau a Chyfarwyddwyr ar gael bob amser tu allan i oriau os oes angen cymorth.

2.4 Hyfforddiant

2.4.1 Mae adnoddau e-ddysgu ar gael i'r staff, a gallant fynd i sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb, gan gynnwys y rhai a gynhelir gan Dîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent a Chaerffili.

2.4.2 Mae'n ofynnol i'r staff fynychu cyrsiau hyfforddiant gorfodol h.y. Pasbort Codi a Chario, Diogelu, Ymwybyddiaeth o Feddyginiaeth, Rheoli Heintiau. Gwelodd y swyddog ymweld bod aelodau staff hefyd yn dilyn hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'u rôl a'r cymorth a gynigir ganddynt. Ar adeg y monitro, roedd 92% o'r gweithlu wedi defnyddio adnoddau e-ddysgu a 63% wedi mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb.

2.4.3 Gwelir ansawdd yr hyfforddiant trwy safon ymarfer a thrwy gael adborth ar lafar yn ystod sesiynau goruchwylio â'r staff.

2.5 Cwynion a Chanmoliaeth

2.5.1 Mae gan Achieve Together ap 'Siaradwch Allan' a gaiff ei lanlwytho i system RADAR. Felly mae unrhyw gwynion neu ganmoliaeth ar gael yn hawdd i'r Rheolwr Rhanbarthol. Mae'r wybodaeth yn mynd i Dîm Ansawdd y darparwr yn gyntaf, sydd wedyn yn ei rhannu â'r Rheolwr Rhanbarthol.

2.5.2 Mae'r system yn dal manylion y gŵyn, ar ba gam mae'r cwyn, ac a yw wedi'i chadarnhau ai peidio.

2.5.3 Disgrifiodd y Rheolwr Rhanbarthol y broses gwyno i'r swyddog ymweld a dywedodd y byddai'n siarad â'r unigolyn oedd yn codi'r gŵyn er mwyn cael gwybodaeth o lygad y ffynnon a cheisio datrys y sefyllfa. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i bob parti yn ystod y broses.

2.5.4 O ganlyniad i rai o'r cwynion, dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol y cafodd gwersi eu dysgu a newidiwyd arferion er mwyn cefnogi tenant yn fwy rhagweithiol.

2.5.5 Os yw staff yn rhan o gŵyn, siaradir â hwy yn ystod cyfarfodydd tîm, neu os yw natur y gŵyn yn fwy cyfrinachol, siaradir â'r aelod(au) yn unigol yn ystod sesiynau goruchwylio.

2.5.6 Cafwyd chwe chwyn a phedair canmoliaeth yn ystod y chwe mis diwethaf.

2.6 Sicrwydd Ansawdd

2.6.1 Gwelodd y swyddog ymweld adroddiadau Rheoliadau 73 ac 80, a nododd eu bod yn fanwl, gyda thystiolaeth o drafodaethau â'r tenant, y staff ac aelodau teulu.

2.6.2 Gwelwyd nad oedd y gwaith goruchwylio yn gyfredol mewn un eiddo, a chafodd ei nodi fel gweithred flaenoriaethol i'r Rheolwr Gwasanaeth.

2.6.3 Mae'r adroddiad Rheoliad 80 yn nodi'r hyn mae'r darparwr yn ei wneud yn dda, pa feysydd sydd angen eu gwella neu ddatblygu ymhellach, a pha weithredoedd penodol sydd eu hangen i roi'r gwelliannau ar waith. Mae'r adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y chwe mis diwethaf h.y. nifer y digwyddiadau diogelu, nifer y gwelyau

gwag ym mhob eiddo, nifer y swyddi gwag, cwynion/canmoliaeth ac unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol.

2.6.4 Ar ddiwedd yr adroddiad, nodir y gweithredoedd a gytunwyd, erbyn pryd mae angen eu cyflawni, a'r person sy'n gyfrifol amdanynt.

2.7 Staffio

2.7.1 Mae Achieve Together yn defnyddio fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru pan gaiff aelodau staff newydd eu cyflogi, ac maent yn cysylltu â'r corff er mwyn ymgorffori tystiolaeth o'r hyfforddiant yn y broses. Ar adeg yr ymweliad, roedd 100 aelod o staff wedi cofrestru fel staff cymorth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a 40 yn aros am gadarnhad o gofrestriad.

2.7.2 Caiff matrics gofal ei ddyfeisio ac edrychir ar anghenion unigol wrth sicrhau lefelau staffio digonol. Wedyn caiff y rota ei lunio yn unol ag anghenion y tenantiaid. Petai angen cynyddu nifer y staff, byddai Achieve Together yn cyfeirio'r mater at y gweithiwr cymdeithasol er mwyn gwneud cais am fwy o staff.

2.7.3 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae 35 o aelodau staff Achieve Together (ym Mwrdeistref Caerffili) wedi gadael y cwmni am wahanol resymau. Cafodd 54 o aelodau staff newydd eu cyflogi yn ystod yr un cyfnod.

2.8 Dogfennaeth staff

2.8.1 Gwelodd y swyddogion monitro ddwy ffeil staff. Dim ond ar un ohonynt y gwelwyd dau eirda. Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys disgrifiad swydd, ffurflen gais, cofnod cyfweliad (yn defnyddio system sgorio), contract cyflogaeth wedi'i lofnodi ac ati. Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys ffotograff o'r aelodau staff unigol, ynghyd â chopi o basbort. Er hynny, ni welwyd copïau o dystysgrifau geni.

2.8.2 Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) heb unrhyw faterion wedi'u nodi.

2.8.3 Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr aelodau staff wedi cael cymhwyster Gofal Cymdeithasol Cymru. Trafodwyd hyn gyda'r Rheolwr Rhanbarthol.

2.9 Goruchwylio

2.9.1 Mae'r staff yn cael goruchwyliaeth un i un, sy'n gyfle i unigolion godi unrhyw bryderon sydd ganddynt, anghenion hyfforddiant, ymarfer da, meysydd ar gyfer gwella ac ati. Cynhelir sesiynau grŵp os bydd angen.

2.9.2 Mae 11 eiddo byw â chymorth yn ardal Gwent. Dangosodd ffigyrau goruchwylio'r ardal bod 61.42% o'r staff wedi cael goruchwyliaeth gyfredol ond nad oedd goruchwyliaeth 38.58% ohonynt yn gyfredol. Mae rhai o'r Rheolwyr Gwasanaeth yn y cartrefi yr ymwelwyd â hwy wedi bod yn agored gyda'r swyddog monitro, gan ddweud nad oedd yr oruchwyliaeth yn gyfredol. Byddwn yn parhau i fonitro'r maes gwasanaeth hwn drwy ymweliadau parhaus â'r eiddo.

2.9.3 Mae'r Rheolwr Rhanbarthol yn archwilio'r oruchwyliaeth yn fisol ac mae system ar waith i reolwyr gael adroddiad misol, sy'n amlygu unrhyw fylchau. Mae'r wybodaeth

hon yn cael ei throsglwyddo i system RADAR ar hyn o bryd, a fydd wedyn yn amlygu pan fydd hi'n bryd cynnal/wedi mynd heibio amser goruchwyliaeth. Mae'r Rheolwr Rhanbarthol yn ei disgrifio fel "system rhybuddio dda". Defnyddir RADAR hefyd i gofnodi arfarniadau blynyddol.

2.9.4 Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol wrth y swyddog ymweld bod ganddi berthynas agored, dda gyda'r rheolwyr gwasanaeth, ac mae'n hapus i gyfarfod â nhw yn wythnosol neu bob pythefnos os bydd angen.

2.9.5 Caiff pob rheolwr gwasanaeth ddiwrnod wedi'i ddynodi i weithio yn y brif swyddfa er mwyn sicrhau y caiff y dogfennau eu cadw'n gyfredol.

2.10 Arsylwadau cyffredinol

2.10.1 Roedd y ffeiliau yn y brif swyddfa wedi'u cyflwyno'n daclus ac roedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth.

## 3 Camau unioni a datblygu

3.1 Unioni

3.1.1 Yr holl staff i gael sesiynau goruchwylio amserol (Rheoliad 36 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA))
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

3.1.2 Cynlluniau Gwasanaeth i roi tystiolaeth bod unigolyn neu gynrychiolydd wedi cael y cyfle i gynorthwyo â'r gwaith o'u datblygu (Rheoliad 15 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

3.1.3 Cofnodion staff i gadw copi o dystysgrif geni'r unigolion (Rheoliad 59 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

3.1.4 Ffeiliau'r staff i gynnwys dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os yn berthnasol. (Rhan 1 – Rheoliad 35 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)

3.1.5 Y tenant neu ei gynrychiolydd i lofnodi'r cynlluniau personol. Os na all y tenant lofnodi, dylai'r rheswm pam gael ei gofnodi'n glir (Rheoliad 35 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

3.2 Datblygu

3.2.1 Nodi dyddiad adolygu ar y Datganiad o Ddiben, er mwyn sicrhau tryloywder o ran pryd caiff y ddogfen ei hadolygu.

## 4 Casgliad

4.1 Roedd ymweliad y swyddog monitro â'r swyddfa yn gadarnhaol, ac roedd enghreifftiau o ymarfer da yn amlwg.

4.2 Bydd gwaith monitro arferol yn parhau a hoffai'r swyddogion monitro ddiolch i staff Achieve Together am eu hamser, y wybodaeth a rannwyd a'u croeso yn ystod yr ymweliad.

| | |
|---|---|
| Awdur: | Caroline Roberts |
| Swydd: | Swyddog Monitro Contractau |
| Dyddiad: | 13 Chwefror 2023 |

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.